

Cost hysbysiad cosb

Os bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi bydd gan y rhiant 15 niwrnod i ddarparu unrhyw dystiolaeth y mae'n dymuno ei chyflwyno i'r ysgol i gefnogi ei resymau pam na ddylid cyhoeddi'r hysbysiad.

Yr ysgol fydd yn penderfynu a gaiff y dystiolaeth ei derbyn.

Nid oes cyfyngiad ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu cyflwyno.

Os cyflwynir Hysbysiad Cosb, y ddirwy fydd:

**£60 yn y lle cyntaf i'w thalu
mewn 28 niwrnod, a all godi i:**

**£120 os na chaiff ei thalu'n
brydlon, i'w thalu o fewn 42
diwrnod i dderbyn
hysbysiad.**

Os na thelir yr Hysbysiad Cosb, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried erlyniad am y drosedd wreiddiol, sef 'methiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol' o dan adran 444(A) o Ddeddf Addysg 1996.

Cefnogaeth gyda Phresenoldeb Ysgol

Cofiwch, os oes rhesymau pam mae eich plentyn yn colli ysgol yna rhowch wybod i'r ysgol.

Os yw'ch plentyn yn absennol o'r ysgol, siaradwch â'r ysgol cyn gynted â phosib ar ddiwrnod cyntaf ei absenoldeb.

**Disgwylir i'ch plentyn fod yn
yr ysgol am 190 o
ddiwrnodau mewn blwyddyn
academaidd, gyda 175
niwrnod i ffwrdd oherwydd
penwythnosau, diwrnodau
HMS a gwyliau ysgol.**



Pwy allwch chi ei ffonio?

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gyflwyno Hysbysiadau Cosb gan ysgol eich plentyn neu gan Wasanaeth Lles Addysg yr Awdurdod Lleol drwy ffonio 01639 763620 neu e-bostio:

EWS@npt.gov.uk

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Hysbysiadau Cosb yn: www.npt.gov.uk

[Gwasanaeth Lles Addysg](#)

HYSBYSIAD COSB

am absenoldebau anawdurdodedig o'r ysgol.

**Gwybodaeth ar gyfer
rhieni/gofalwyr a
disgyblion**



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Hysbysiadau Cosb

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo pob awdurdod lleol i gyflwyno Hysbysiadau Cosb o dan Reoliadau (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013.

Mae absenoldeb o'r ysgol, am ba reswm bynnag, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd tymor hir plentyn a dylid ei osgoi os yw'n bosib.

Mae Hysbysiad Cosb yn ddewis amgen i erlyniad, gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb plentyn yn yr ysgol.

Apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb

Nid oes hawl statudol i apelio o dan y Rheoliadau, ond pan fo rhiant yn gwrthwynebu cyhoeddi Hysbysiad Cost, gall gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg.

Pwy fydd yn derbyn yr Hysbysiad Cosb?

Cyflwynir hysbysiad i bob rhiant mewn perthynas â phob plentyn.

O dan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996, 'rhiant' yw'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu'r rheini sy'n gyfrifol am ofal y plentyn o ddydd i ddydd, waeth beth fo'u perthynas â'r plentyn.

Pam ddylai fy mhientyn fynychu'r ysgol bob dydd?

Presenoldeb 100%

0 diwrnod o ddysgu wedi'i gollu
Y cyfle gorau am lwyddiant!

Presenoldeb 95%

Colli pythefnos o ddysgu
Bydd presenoldeb gwael yn cael effaith ar ddysgu

Presenoldeb 90%

4 colli pythefnos o ddysgu
Bydd presenoldeb gwael yn cael effaith ar ddysgu

Presenoldeb 85%

5 colli 1/2 wythnos o ddysgu
Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith sylweddol ar ddysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.

Presenoldeb 80%

colli 7 1/2 wythnos o ddysgu
Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith sylweddol ar ddysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.

Gellir cyflwyno hysbysiad cosb:

Pan fo disgybl yn colli lleiafswm o 10 sesiwn neu bum niwrnod ysgol oherwydd absenoldebau anawdurdodedig yn ystod y tymor presennol ac yn dod â phresenoldeb cyffredinol yr ysgol i lai na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yma.

Os collir 10 sesiwn neu 5 niwrnod ysgol oherwydd gwyliau yn ystod y tymor os yw'r absenoldeb yn mynd â phresenoldeb yr ysgol gyfan i lai na 90% yn y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yma.

10 sesiwn o hwyrni parhaus ar ôl i'r gofrestr gau mewn tymor sy'n dod â'r presenoldeb i lai na 90% yn y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yma, neu gyfuniad o'r uchod.

